**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r
Trefnydd

11 Ionawr 2023

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl)**

Annwyl Lesley,

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 13 Rhagfyr, cytunwyd i ysgrifennu atoch i fynegi pryder ynghylch y ffaith y cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Genetig (Bridio Manwl) ei osod yn hwyr.

Fel y gwyddoch, er i'r Bil gael ei osod yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mai 2022, dim ond ar 8 Rhagfyr y gwnaeth Llywodraeth Cymru osod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu amserlennu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ar 17 Ionawr 2023, mae hyn yn golygu y gofynnwyd i'r Pwyllgor Busnes gytuno ar 16 Ionawr fel y ddyddiad cau ar gyfer adrodd. O gofio toriad y Nadolig, prin oedd yr amser oedd ar gael i'r pwyllgorau perthnasol graffu ar y darpariaethau perthnasol yn y Bil, sef oddeutu pythefnos o fusnes.

Er bod hon o bosibl yn enghraifft eithafol o oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd, nodwn nad yw'n enghraifft unigryw, ac y bu nifer o enghreifftiau diweddar o osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn hwyrach nag sy'n ofynnol yn ôl Rheolau Sefydlog y Senedd, ac yn sylweddol hwyr ar adegau.

Rydym hefyd yn nodi'r diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol penodol hwn ac yn gwerthfawrogi'r anhawster y gall hyn ei

achosi i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae’n ddyletswydd arnom i nodi’r effaith a gaiff y diffyg amser cyfyngedig sydd ar gael yn aml i bwyllgorau graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, gan gynnwys yr effaith ar eu gallu i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau gan randdeiliaid, lle y bo’n briodol, a’u rhaglenni gwaith ehangach. Byddwch yn ymwybodol bod Aelodau wedi codi’r mater hwn droeon yn y Siambr bod nifer o bwyllgorau wedi’i godi.

Byddem yn annog yn eich annog chi, yn eich rôl fel Trefnydd, a Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, i ymrwymo i sicrhau bod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael eu gosod yn brydlon, a bod yr amser sydd ar gael i bwyllgorau’r Senedd graffu arnynt yn ddigon i’w galluogi i wneud y gwaith sydd ei angen yn ddigon manwl.

Rwy’n amgáu copi o’r llythyr hwn at y pwyllgorau y mae’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn effeithio arnynt, sef Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Y Gwir Anrh Elin Jones AC**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.